Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin y Bont-faen**

**Broad Shoard**
**Y Bont-faen**
**CF71 7DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/08/2023

# Cylch Meithrin y Bont-faen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin y Bont-faen |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>6 Mehefin 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau, a chaiff eu hanghenion eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a'r staff. Maent yn chwarae'n egnïol ac yn dangos mwynhad wrth ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Maent yn rheoli risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau'n ofalus ac yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi i ddysgu.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da yn gyffredinol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau iechyd a diogelwch da ar waith ac maent yn lleihau'r rhan fwyaf o'r risgiau i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i welliannau parhaus. Maent yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn sicrhau y caiff hyfforddiant staff ei reoli. Maent wedi meithrin cydberthynas gref â'r rhieni a'r gymuned leol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, pan ddychwelodd y plant dan do ar ôl chwarae yn yr awyr agored, gwnaethant ymuno'n hapus â'r amser cylch i gynnig caneuon i'w canu, a gweithredodd y staff ar eu dymuniadau. Mae'r ardaloedd chwarae dan do yn cynnig lle a rhyddid i'r plant wneud dewisiadau drwy gydol y dydd, megis dewis ble maent yn dymuno chwarae. Caiff dewisiadau'r plant eu parchu. Er enghraifft, cafodd dymuniadau'r plant nad oeddent am fwyta afal nac oren yn ystod amser byrbryd eu parchu, a chynigiwyd ffrwythau eraill iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel. Maent yn hapus, wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Maent yn mwynhau cysondeb yr arferion dyddiol sy'n cefnogi anghenion unigol y plant. Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn sgwrsio'n frwdfrydig ymysg eu ffrindiau wrth chwarae wrth y byrddau neu mewn ardaloedd chwarae gwahanol, megis yr ardal gwisgo i fyny neu'r ardal adeiladu. Yn ystod amser cinio, mae'r plant yn mwynhau'r amgylchedd hamddenol a'r cyfle i gymdeithasu â'i gilydd o amgylch y byrddau. Mae'r plant yn gyfforddus ymysg ymwelwyr ac yn mwynhau dangos yr adnoddau iddynt. Er enghraifft, yn ystod ein hymweliad, roedd y plant yn awyddus i ddangos eu bod wedi gwisgo i fyny fel deinosoriaid.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n agored â'i gilydd ac â'r staff. Felly, mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda. Mae bron pob un o'r plant yn cyd-dynnu ac yn ymgysylltu’n dda â'u cyfoedion, gan ddangos diddordeb yn anghenion ei gilydd a chefnogi ei gilydd. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau â'u cyfoedion a'r staff. Mae'r cydberthnasau agos yn amlwg ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus i eistedd a swatio ym mreichiau'r staff wrth wrando ar straeon neu eistedd yn agos at y staff yn ystod gweithgareddau.

Mae'r plant yn ymroi i drefn y dydd ac yn cymryd rhan weithgar ynddi. Maent yn mwynhau eu chwarae ac yn dangos brwdfrydedd wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae ysgogol. Mae'r plant yn cychwyn eu gweithgareddau eu hunain gan fod yr adnoddau'n cael eu cadw o fewn eu cyrraedd ar eu lefel nhw. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd at yr ardal ysgrifennu ac yn ymarfer gwneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau hygyrch. Mae'r plant hefyd yn mwynhau gweithgareddau a gynlluniwyd, megis gwneud hufen ia gyda gwlân cotwm a lliwiau bwyd. Gwelsom ffotograffau o'r gweithgaredd a wnaed y diwrnod blaenorol lle roedd y plant hŷn wedi mwynhau gweithio mewn timau i archwilio powlenni golchi llestri wedi'u llenwi â ffa, pasta, jeli, glaswellt a glŵp.

Mae'r plant yn annibynnol ac yn mwynhau paratoi byrbrydau a chinio, gan olchi a sychu eu dwylo a chymryd eu hamser i fwyta, heb gael eu brysio. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n

addas ar gyfer eu hoedran a defnyddio adnoddau sy'n hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i symud o gwmpas a bod yn egnïol yn yr awyr agored. Caiff y plant eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau, megis creu toes neu fynd ar gefn beic, a magu eu hyder i feithrin eu sgiliau datrys problemau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae nifer o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli, ac yn ymateb i'r plant yn gyson. Mae nifer o'r staff yn hyderus o ran gweithdrefnau diogelu'r lleoliad ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau ar waith drwy gydol y sesiwn, megis diheintio'r byrddau cyn amser byrbryd a chinio. Maent yn rhoi arferion golchi dwylo a hylendid ar waith yn ofalus. Mae'r staff yn dilyn rota ac yn rhannu cyfrifoldebau megis paratoi byrbrydau neu newid cewynnau. Yn ystod amseroedd byrbryd a chinio, mae'r staff yn canmol y plant ac yn annog moesau da wrth y bwrdd, megis dweud 'os gwelwch yn dda' and 'diolch'. Mae'r staff yn rhoi arferion sydd wedi'u hymarfer yn dda ar waith i ddelio ag alergeddau ac maent yn wybodus am weithdrefnau'r lleoliad. Maent yn newid cewynnau ag urddas a pharch ac mae'r cofnodion yn cael eu cwblhau'n gywir. Mae'r staff yn barod eu cymwynas ac yn wybodus am anghenion unigol y plant. Mae'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cwblhau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn parchu ei gilydd ac yn cyfathrebu'n gyson, gan ddangos caredigrwydd, cymorth a chydweithrediad effeithiol. Maent yn sensitif i brofiadau'r plant ac yn ymateb i lefel y cymorth sydd ei angen i ddatblygu'r plant a diwallu eu hanghenion unigol. Er enghraifft, ymatebodd y staff â gofal pan gafodd llaeth ei ollwng yn ystod amser byrbryd, gan ddileu unrhyw risgiau a rhoi tawelwch meddwl, *"don't worry, it was only an accident, would you like some more milk now?"* Mae nifer o'r staff yn fodelau rôl da ac maent wedi creu amgylchedd gwaith prysur a hapus.

Mae llawer o'r staff yn dangos eu bod yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am anghenion ac arferion y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sgiliau unigol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion goruchwylio clir a phwrpasol sy'n cyfrannu at eu proses gynllunio yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o gynnydd unigol y plant yn '*Llyfrau Profiad'* y lleoliad, sy'n dangos profiadau a chyflawniadau'r plant. Ar gyfer y plant hŷn, mae'r staff yn llunio dyddiadur digwyddiadau cyffrous ac arloesol sy'n cynnwys gweithgareddau megis pobi, gwneud offerynnau cerdd, picnic tedi bêr, gwneud cebabau ffrwythau, paentio ag iâ, gwneud llosgfynyddoedd lemon a phrynhawn dŵr. Mae gan lawer o'r staff ddealltwriaeth dda iawn o hawliau plant ac amrywiaeth ac maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran.

| Yr Amgylchedd | Da |
| --- | --- |

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant. Ar y cyfan, maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd croesawgar, cynnes a chartrefol, gyda mynedfeydd ac allanfeydd clir. Maent yn cynnal ymarferion tân a phrosesau gwagio'r adeilad yn rheolaidd, ac mae'r holl gofnodion yn gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff pob cyfarpar tân ei wasanaethu a bod gwiriadau diogelwch yr adeilad yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n gywir. Maent yn cadw ffeil gynhwysfawr o asesiadau risg cyfredol a phwrpasol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen. Er enghraifft, roedd yn gynnes iawn ar ddiwrnod ein hymweliad, a dangosodd y staff arferion da drwy dreulio amser yn yr awyr agored yn ystod y cyfnodau pan nad oedd hi'n rhy boeth yn unig.  Maent yn cofnodi gwybodaeth ddyddiol fanwl ar y prif hysbysfwrdd, gan gynnwys amrywiaeth o ofynion rheoliadol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau cofrestrau staff a phlant dyddiol, sy'n cynnwys eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Yn yr un modd, maent yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw i nodi pob ymwelydd â'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Maent yn cynnig amgylchedd sy'n cynnwys mynedfa ddiogel ac ardal addas i gynnal trafodaethau cyfrinachol â rhieni. Mae swyddfa ar gael yn y lleoliad hefyd lle y caiff yr holl gofnodion eu storio er mwyn sicrhau cyfrinachedd, ynghyd â chegin sydd wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar lle y caiff byrbrydau eu paratoi'n ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu dan do sy'n galluogi'r plant i archwilio a meithrin sgiliau newydd. Maent hefyd yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn gaeedig ac yn cynnig ardal breifat sy'n cynnwys glaswellt ac arwynebau caled i'r plant chwarae. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser, ac mae'r ymarferwyr yn deall lefelau risg. Fodd bynnag, nid oedd un o'r gwelyau blodau a oedd wedi tyfu'n wyllt wedi cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, gan beri risg bosibl i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae o ansawdd da ar gael i'r plant dan do. Yn yr ardal awyr agored, maent yn darparu ardal agored gydag amrywiaeth o gyfarpar o ansawdd da sy'n cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau corfforol a sgiliau datrys problemau'r plant ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau yn addas ar gyfer oedran y plant, a'u bod yn cynnig amrywiaeth, dewis a chyfleoedd i'r plant archwilio a dysgu. Er enghraifft, mae ardal adeiladu, set drenau pren, tŷ doliau mawr, adnoddau byd bach, ceir, treiciau a chyfarpar dringo ar gael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac yn cadw ffeil o bolisïau a gweithdrefnau sydd, ar y cyfan, yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn sicrhau bod y polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu arferion y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cydymffurfio â bron pob un ohonynt, ac maent yn dogfennu arferion gweithdrefnau yn gyson mewn ffordd drefnus a chyfrinachol. Dangosodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad system newydd ar gyfer arfarnu a goruchwylio'r staff, a gwelsom y broses hon ar waith. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod ffeiliau staff ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff, ond nid oedd pob darn o wybodaeth ar gael yn hawdd. Sicrhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fod y ffeiliau hyn yn cael eu diweddaru yn ystod y broses arolygu er mwyn cynnwys y dogfennau gofynnol. Mae cofnodion eraill, megis ffeiliau'r plant, rotas cludiant a dogfennaeth ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am niferoedd dyddiol y plant, cymarebau a chyfrifoldebau yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd sydd wedi'i leoli mewn man lle y gall pob aelod o'r staff ei weld.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adolygiad hunanwerthuso blynyddol manwl. Maent yn dangos eu bod yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant yn ofalus er mwyn cynnal safonau ac yn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud fel rhan o gynllun gweithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn wynebu heriau i sicrhau lefelau staffio digonol o bryd i'w gilydd. Maent yn cwblhau asesiadau risg er mwyn sicrhau y caiff diogelwch y plant a'r staff ei fonitro a sicrhau bod y cymarebau'n gywir. Pan fydd y sefyllfaoedd hyn yn codi, dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym eu bod yn ceisio staff dros dro, gan sicrhau bod y gwiriadau cywir, ffeiliau staff a phrosesau sefydlu yn cael eu cwblhau yn gyntaf bob amser. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac roeddent yn gadarnhaol am y cymorth a'r hyfforddiant y maent yn eu cael gan eu harweinwyr. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant gorfodol a bod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant helaeth ar ddiogelwch tân, alergeddau ac iechyd a diogelwch. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a'u bod yn croesawu cyfleoedd i rannu enghreifftiau o arferion da. Mae'r staff yn hapus i gynnig gwybodaeth am arferion dyddiol, cyfrifoldebau diogelu, cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i feithrin partneriaethau cryf â'r rhieni. Maent yn mwynhau cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid proffesiynol ac yn ymdrechu i roi'r canllawiau a'r cymorth y maent yn eu cael ar waith i wella profiadau'r plant. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym am eu cynlluniau i barhau i wella'r amgylchedd. Maent yn ymgysylltu â'r gymuned drwy ymweld â siopau a pharciau cyfagos. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad a'u bod wedi

gwneud llawer o ffrindiau. Gwnaethant ddweud wrthym fod yr arweinwyr a'r staff yn gefnogol ac yn sicrhau eu bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gyfrif cyfryngau cymdeithasol preifat.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Lleihau peryglon yn yr awyr agored i'r eithaf er mwyn i'r plant allu chwarae'n ddiogel. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod y prosesau goruchwylio staff yn cael eu hymgorffori'n gadarn er mwyn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r staff fyfyrio ar ansawdd eu hymarfer. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/12/2023